

Y Nadolig yn Aberduar

Cynhaliwyd oedfa arbennig ar gyfer y Nadolig yng nghapel Aberduar ar y 16eg o Ragfyr. Yn cymryd rhan oedd nifer o fobl ifainc yr eglwys. Croeshawyd pawb i'r gwasanaeth gan Rhian Milcoy. Hi hefyd gyflwynodd y weddi agoriadol. Cyflwynwyd yr emynau gan Rhian Milcoy, Elin Evans, Lowri Wilson, Arwel Jenkins ac Anne Milcoy. Cafwyd adroddiad gan Elin Evans a darlenniadau gan Arwel Jenkins, Llyr Davies a Hedydd Wilson. Cyflwynodd Lowri stori hyfryd gyda thema Nadoligaidd. Yn dilyn cafwyd anerchiad gan ein gweinidog y Parch Jill Tomos. Yn cyfeilio wrth yr organ oedd Rhiannon Lewis. Cyflwynwyd gweddi gan Llyr Davies cyn canu yr emyn olaf. Trefnwyd yr oedfa gan Dewi Davies Glynteg. Yn dilyn yr oedfa fe wnaeth pawb droi i fewn i'r festri am baned a sgwrs wedi ei baratoi gan y chwiorydd.

Am naw o'r gloch fore dydd Nadolig cafwyd oedfa hyfryd iawn dan arweiniad ein gweinidog y Parch Jill Tomos. Cyhoeddwyd yr emynau gan Hannilia Court, Dewi Davies a Richard Milcoy gyda Rhiannon Lewis wrth yr organ. Cafwyd neges arbennig gan y Parch Jill Tomos. Carwn ddymuno blwyddyn newydd dda i'n gweinidog a'r teulu.

(Diolch i Dewi Davies, Glynteg am y trefniadau a'r adroddiad - Jill)

Oedfa

eciwmennaidd

(am 7 yr hwyr)


San Tomos ar y 7ed o Chwefror; a Soar ar y 21ain o Fawrth
Croeso i bawb.

Chwiorydd Aberduar

Croesawyd chwiorydd Rhydybont ac Eglwys San Pedr i de Nadolig y chwiorydd yng nghyfarfod mis Rhagfyr - cyfle i ganu carolau gyda'n gilydd, a chymdeithasu uwch dan-teithion Nadolig. Diolch i bawb am eu cyfraniadau. Debyg y gwelwn gydweithio eto!

Oedfaon Gweddi Eciwmennaidd y Chwiorydd

Cynhelir Oedfaon Gweddi Eciwmennaidd y Chwiorydd ar brynhawn **Gwener 1af o Fawrth**, yn **Soar, Llamed** ar gyfer Noddfa, Caersalem a Bethel (a Mr Gareth Jones fydd yn annerch), ac yn **Seion Cwrt-newydd** ar gyfer eglwysi ardal Llanwenog (amser y ddwy oedfa i'w hysbysu). Gwagedd o Ffrainc sy wedi paratoi'r oedfa eleni, a'r thema yw 'Bûm yn ddieithr a chymerasoch fi i'ch cartref.' Croeso i chwiorydd yr holl eglwysi.



Deufis

Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi

Chwefror a Mawrth 2013

Trefn oedfaon y Sul

Mae'r oedfaon yn gyhoeddus a chroeso i bob un fynychu unrhyw un o'r oedfaon sy'n gyfleus.

3 Chwefror

Aberduar 10.00 y bore
Noddfa 3.30 y prynhawn

Doniau'r eglwys
Cymun unedig i Noddfa,
Caersalem a Bethel dan ofal y
Parchg Stephen Morgan

10 Chwefror

Aberduar 10.00 y bore
Caersalem 2.00 y prynhawn

Parchg Wynn Vittle
Cymun unedig i Gaersalem,
Bethel a Noddfa dan ofal y
Parchg Athro Densil Morgan
Oedfa unedig i Brynhafod a
Seion o dan ofal
Mrs Doreen Jones

Seion 2.00 y prynhawn

17 Chwefror

Noddfa 9.30 y bore
Aberduar 11.00 y bore
Caersalem 2.00 y prynhawn

Cymun

24 Chwefror

Aberduar 10.00 y bore
Bethel 10.15 y bore
Brynhafod 1.30 y prynhawn
Seion 3.00 y prynhawn

Doniau'r eglwys

Cymun

Cymun

Newyddion etc i'r gweinidog erbyn **16 Mawrth**: Galilea, 14 Cae Coedmor, Cwmann SA48 8EH, 01570 423442, jilltomos@tesco.net

drosodd/...

Trefn y Suliau (parhad)

3 Mawrth

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Cymun

10 Mawrth - Sul y Mamau - ac oedfa'r Genhadaeth

Noddfa	10.30 y bore	Oedfa unedig i'r Cylch i gyd yng nghwmni Julia a James Henley a hefyd (gobeithio!) eu merch Katie Grace
--------	--------------	---

17 Mawrth

Noddfa	9.30 y bore	
Aberduar	11.00 y bore	
Caersalem	2.00 y prynhawn	

24 Mawrth - Sul y Blodau

Aberduar	10.00 y bore	Mrs Dwynwen Teifi
Bethel	10.15 y bore	
Brynhafod	1.30 y prynhawn	
Seion	3.00 y prynhawn	

31 Mawrth - Sul y Pasg

Aberduar	9.30 y bore	Oedfa unedig i Brynhafod, Seion ac Aberduar
Noddfa	11.00 y bore	Oedfa unedig i Gaersalem, Noddfa a Bethel

Rhaghysbys

7 Ebrill

Aberduar	10.00 y bore	<i>Cwrdd blynyddol gyda'r Parchg Stephen Morgan</i>
Caersalem	2.00 y prynhawn	<i>Cymun</i>
Noddfa	6.00 yr hwyr	<i>Cymun</i>

Cylch Darllen

Am 10.30 yn Ffestri Noddfa: 13eg o Chwefror, Colosiaid 2, Ann yn gwneud y paned; 13eg o Fawrth, Job 38 - 41 (4 pennod yn fras) a Peggy yn gwneud y paned. Croeso i bawb!

I gael 'Deufis' ar ffurf pdf ar e-bost, anfonwch air ataf i 'jilltomos@tesco.net'.

Banc Bwyd Llamed

Bellach mae trefniadau'r banc bwyd ar y gweill ar y cyd rhwng Noddfa ac eglwysi eraill y dre i ddarparu cymorth bwyd ar gyfer pobl a theuluoedd mewn argyfwng yn ardal Llamed. Gobeithio y bydd modd gweld ychydig yn fwy o fanylion am y cynllun yn y wasg leol cyn bo hir.

Bydd cyfle i helpu ar sawl lefel. Yn syth fe fydd angen dechrau casglu **rhoddion bwyd**, pethau fydd modd eu cadw nes bod eu hangen. Awgrymir y canlynol:

Brecwast: bagiau te, siwgr, grawnfwyd (cereal), jam. **Cinio bach:** pethau mewn tun - cawl, ffa pob, spageti mewn sos, corned beef, ham - i wneud pryd ar dost neu mewn brechdan. **Prif fwyd: bwydydd tun:** pastai (fel Fray Bentos), cig mewn grefi/sos, tiwna, tatws, pys, moron, tomatos, yd melyn; **bwydydd sych mewn pecyn:** tatws, reis, pasta. **Amrywiol:** unrhyw fwydydd pwddin, sych neu dun; unrhyw siocled; bisgedi; papur tŷ bach

Fe fydd casgliad arian hefyd i dalu am fwydydd ffres fel bara a llaeth, a chostau gweinyddol - fel argraffu, a llinell ffôn. Rwy'n siwr y bydd rhai yn barod i gyfrannu fel y gallwch. Gobeithio y bydd modd casglu bwyd mewn bocs ym mhob un o gapeli'r Cylch, ac rwy'n ddiolchgar i Frynhafod am neilltuo casgliad y Nadolig at y fenter.

Ysgol Sul Noddfa

Bu aelodau'r Ysgol Sul yn diddori'r Henoed yng Nghartref Hafandeg ar ddechrau'r flwyddyn. Cyflwynwyd amrywiaeth o eitemau safonol ac er syndod i'r Mamau a'r unig Dad oedd yn bresennol cafwyd dwy eitem gorawl hefyd gyda'r plant a'u rhieni yn ymuno !! Roedd y preswylwyr wrth eu bodd ac yn werthfawrogol iawn o gyfraniadau ardderchog pawb o'r lleiaf i'r hynaf. Diolchodd Mrs Megicks i'r plant a'u rhieni am roi o'u hamser gan ddod â chymaint o bleser i'r Henoed. Cyn troi tuag adre mwynhawyd paned a danteithion ysgafn a chafwyd cyfle i gymdeithasu.

Ar Sadwrn 12 Ionawr aeth y plant a'u rhieni ac ambell Fam-gu i weld y Panto 'Aladdin' yn Theatr y Werin, Aberystwyth. Yn ôl yr arfer roedd y cynhyrchiad yn un gwych llawn hwyl a sbri a'r cyfan mor broffesiynol. Mwynhawyd y prynhawn yn fawr iawn.

Cynhelir oedfa'r Pasg yng ngofal yr Ysgol Sul ym mis Mawrth - dyddiad ac amser i'w hysbysu! *(Diolch Llinos a Janet am hwn.)*